# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## BWRDD CABINET YR AMGYLCHEDD, ADFYWIO A GWASANAETHAU STRYDLUN

## DYDD MAWRTH, 14 TACHWEDD 2023

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: J.Hurley, S.Jones a/ac C.Phillips

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Brennan, D.Griffiths, M.Roberts, C.Morris, K.Lewis, S. Owen, D.Rees, T.Rees a/ac C.Plowman

**Gwahoddedigion craffu:**

Cynghorwyr: S.Pursey a/ac T.Bowen

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Medi 2023 a 6 Hydref 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

7. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL 2023/2024 - CHWARTER 2 (1 EBRILL 2023 - 30 MEDI 2023)**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

8. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig, dylid newid y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy fel a ganlyn:-

Cwmnïau i'w hychwanegu at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| DTPH Arb & Groundworks (D044) | 77,84,101,102 |
| Clean to the Core (C077) | 105,111 |
| Integrated Fencing Ltd (I019) | 84,96 |
| Betterclean Services (B044) | 105 |

Cwmnïau i'w tynnu oddi ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy:

Roedd angen dileu'r cwmnïau canlynol oherwydd methiant i fodloni meini prawf Iechyd a Diogelwch CBSCNPT (H027) a bod un cwmni wedi'i Ddiddymu (A022).

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Highcross Security & Electrical Ltd (H027) | 21F, 21G, 41,43,47,48,49,50,60 |
| Avalon Insulation Services Ltd (A022) | 31,111 |

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig**:

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes a sicrhau proses gaffael gystadleuol.

Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd 2023.

9. **GORCHMYNION RHEOLEIDDIO TRAFFIG ARFAETHEDIG AR GYFER DATBLYGIAD TAI AWEL AFAN GER GOLWG Y SIANEL A FFORDD Y DYWYSOGES MARGARET, PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r asesiad effaith integredig, rhoddir cymeradwyaeth i hysbysebu'r gorchmynion rheoleiddio traffig sy'n gysylltiedig â datblygiad tai newydd Afan Awel oddi ar Golwg y Sianel a Ffordd y Dywysoges Margaret (fel y manylwyd yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd), ac os na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau, dylid gweithredu'r cynigion ar y safle fel yr hysbysebwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Bydd y gorchmynion rheoleiddio traffig arfaethedig yn atal parcio diawahaniaeth ac yn hwyluso hynt traffig cerbydau er diogelwch ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd 2023.

10. **GORCHYMYN 2023 (MANNAU PARCIO I BRESWYLWYR ANABL) QUARR ROAD, PONTARDAWE**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Dylid diystyru'r gwrthwynebiad yn llawn i Orchymyn (Quarr Road, Pontardawe) (Lleoedd Parcio i Breswylwyr Anabl) 2023 (fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd), a bod y

cynllun yn cael ei weithredu fel y'i hysbysebir cyn gynted ag y bo modd.

- Hysbysir y gwrthwynebydd o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Gan roi sylw dyledus i'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd, a hefyd y llythyr cymorth, ystyriwyd llawer o ffactorau cyn gwneud y penderfyniad arfaethedig.

Oherwydd topograffi Quarr Road, roedd achos cryf dros weithredu'r cynllun gan fod y ffordd ar raddiant serth. Roedd yr ymgeisydd yn bodloni'r holl feini prawf i wneud cais am le parcio unigol i'r anabl.

O ran pwynt 3 o'r crynodeb o wrthwynebiad; roedd y preswylydd yn pryderu y byddai unrhyw ddeiliad bathodyn glas yn gallu parcio yn y gilfach, ystyriwyd nad oedd hyn yn wir. Dim ond deiliad rhif 21 fydd yn gallu gwneud cais ar gyfer y drwydded parcio anabl mewn perthynas â'r gilfach hon, ac roedd tîm gorfodi parcio'r cyngor yn gallu gwirio hyn gyda chofrestriad y cerbyd sy'n gysylltiedig â'r drwydded arfaethedig.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd 2023.

11. **CYNLLUN RHEOLI ASEDAU PRIFFYRDD**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Bod Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd drafft 2023-26, fel y'i darperir yn Atodiad A o'r adroddiad a ddosbarthwyd, yn cael ei gymeradwyo.
- Rhoddir diweddariad pellach i Fwrdd Cabinet Gwasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun ar ôl cwblhau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a gwaith rheoli'r Llwybr Beicio.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf a pharhau i ddatblygu Cynllunio Rheoli Asedau Priffyrdd y Cyngor yn unol ag arfer da.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd 2023.

## 12. YNNI GOLEUADAU STRYD

Ystyriodd Aelodau'r Cabinet yr argymhelliad ychwanegol arfaethedig i'r gwreiddiol, a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Nid oedd Aelodau'r Cabinet yn gefnogol o'r argymhelliad ychwanegol a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu, a gynhaliwyd cyn y cyfarfod hwn.

**Penderfyniad:**

Rhoi cymeradwyaeth i ymgynghori â'r cyhoedd mewn perthynas â'r strategaethau arbed ynni goleuadau stryd posib, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Helpu i lywio unrhyw benderfyniad yn y dyfodol ynghylch arbedion goleuadau stryd a'r Asesiad Effaith Integredig cysylltiedig.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd 2023.

## 13. STRATEGAETH ISADEILEDD CERBYDAU DI-ALLYRIADAU (ZEVIS)

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

## 14. MANNAU GWEFRU PRESWYL AR Y STRYD AR GYFER CERBYDAU TRYDAN

**Penderfyniad:**

- Bod y cyngor yn parhau i wrthod ceisiadau am godi tâl ar gerbydau trydan preswyl neu fusnes ar y stryd am y tro

- Bod Swyddogion yn parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru, drwy Trafnidiaeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i ofyn am ganllawiau enghreifftiol a gofynion trwydded ar gyfer codi tâl preswyl ar y stryd mewn perthynas â cheisiadau codi tâl ar y stryd gan breswylwyr.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

O ystyried y goblygiadau cyfreithiol i'r Awdurdod, y materion diogelwch posib sy'n codi o osod cebl ar draws y briffordd, a'r treialon cynnar mewn mannau eraill o atebion arloesol o bosib, argymhellwyd y dylid parhau â'r moratoriwm presennol a monitro llwyddiant neu fethiant y treialon.

Gan fod nifer y cerbydau trydan yn debygol o gynyddu'n gyflym yn y blynyddoedd i ddod, a'r materion codi tâl preswyl yn deillio o'r cynlluniau tai a phriffyrdd hanesyddol ledled y wlad, roedd angen canllawiau cenedlaethol oddi wrth Lywodraeth Cymru i sicrhau dull cyson rhwng cynghorau ac er mwyn llywio cynlluniau a pholisïau'r dyfodol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd 2023.

15. **Y SEILWAITH GWEFRU CERBYDAU TRYDAN - Y DIWEDDARAF AR DROSGLWYDDO I ALLYRIADAU ISEL IAWN**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

16. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

17. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**Penderfyniad:**

Gwaherddir y cyhoedd o'r cyfarfod wrth i’r eitem fusnes ganlynol gael ei hystyried ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at

Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol.

18. **BWRIAD I EHANGU SINEMA A GWNEUD GWAITH GWELLA MEWNOL YNG NGHANOLFAN CELFYDDYDAU PONTARDAWE - HYSBYSIADAU WALIAU CYDRANNOL (EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio i gyflwyno unrhyw hysbysiadau gofynnol o dan Ddeddf Gwahanfuriau 1996, i sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd o dan y ddeddfwriaeth hon mewn perthynas â'r estyniad sinema newydd arfaethedig a'r gwaith gwella mewnol yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe.
- Awdurdodi'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio i ddiwygio'r cynllun dirprwyaethau i gynnwys cyflwyno hysbysiadau o dan Deddf Gwahanfuriau 1996; a bod Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn cael ei awdurdodi i ddiweddaru Cyfansoddiad Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot i gofnodi hyn.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Galluogi'r cyngor i fwrw ymlaen â'r cynllun gwaith, ar yr amod bod y tendrau o fewn y gyllideb yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe, ac i sicrhau bod awdurdod priodol ar waith ar gyfer unrhyw hysbysiadau yn y dyfodol y gallai fod eu hangen.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Mae'r penderfyniad hwn i'w roi ar waith yn syth, ac felly nid yw'n rhwym wrth y cyfnod galw i mewn tri diwrnod.

19. **CYNLLUNIAU LLEOEDD - COMISIYNU GWAITH YMGYNGHORIAETH YCHWANEGOL I THE URBANISTS ER MWYN DATBLYGU AC EHANGU CYNIGION PRESENNOL YMHELLACH**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Gwahardd gofynion Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor, a chymeradwyo i'r cyngor wneud dyfarniadau uniongyrchol i The

Urbanists ar gyfer gwasanaethau ymgynghori dros dro, ar gyfer y gwasanaethau ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer darparu cynlluniau lleoedd presennol yn unig.

- Rhoddir awdurdod i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio gaffael gwasanaethau ymgynghori pellach ar gyfer trefi ychwanegol, aneddiadau eilaidd a thrydyddol (nad ydynt eisoes wedi'u comisiynu i The Urbanists) yn gynnar yn 2024.

**Rheswm dros y Penderfyniad Arfaethedig:**

Cynorthwyo'r Adran Adfywio i gwblhau Cynlluniau Lleoedd ar gyfer ei threfi, sy'n rhan o ofynion Llywodraeth Cymru wrth gyflawni prosiectau strategol a darparu grantiau i drydydd partïon, ac i alluogi datblygu cynlluniau gydag aneddiadau eilaidd a thrydyddol.

Sicrhau parhad gwasanaeth ac arbed amser wrth ddeall y tasgau angenrheidiol mewn perthynas â'r gwaith ychwanegol angenrheidiol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd 2023.

## 20. DIWEDDARIAD AR GWMNI GWAREDU GWASTRAFF YR AWDURDOD LLEOL Y CYNGOR (EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**